## ATODLEN 7

Rheoliad 23(2)

### Gwybodaeth i'r cyhoedd o ran trothwyon rhybuddio a gwybodaeth ar gyfer nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid ac osôn

**1.** Mewn achosion pan groesir naill ai'r trothwyon gwybodaeth neu rybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid neu osôn yn Atodlen 4, rhaid sicrhau bod y manylion a geir ym mharagraffau 3 i 6, o leiaf, ar gael i'r cyhoedd.

**2.** Mewn achosion pan ragfynegir y bydd y trothwyon gwybodaeth neu rybuddio ar gyfer un o'r llygryddion hynny yn Atodlen 4 yn cael eu croesi, rhaid darparu'r wybodaeth a geir ym mharagraffau 3 i 6, pan fo hynny'n ymarferol, fel pe bai cyfeiriadau at ormodiannau yn y paragraffau hynny'n gyfeiriadau at ormodiannau a ragfynegir.

**3.** Gwybodaeth ynghylch unrhyw achos lle y mae'r trothwyon gwybodaeth neu rybuddio wedi eu croesi—

(a) y lleoliad neu'r ardal lle y mae'r trothwyon wedi eu croesi;

(b) y math o drothwy sydd wedi ei groesi (trothwy gwybodaeth neu rybuddio);

(c) faint o'r gloch y cafodd y trothwy ei groesi ac am faint o amser y parodd y digwyddiad; ac

(ch) yn achos osôn, y crynodiad un awr ac wyth awr uchaf.

**4.** Y rhagolygon ar gyfer y prynhawn, y diwrnod a'r diwrnodau canlynol—

(a) yr ardal ddaearyddol lle y disgwylir y bydd trothwy gwybodaeth neu rybuddio yn cael ei groesi; a

(b) y newid a ddisgwylir o ran llygredd, hynny yw, gwelliant, sefydlogiad neu ddirywiad, a'r rhesymau dros y newid hwnnw.

**5.** Gwybodaeth am y math ar boblogaeth sydd dan sylw, effeithiau posibl ar iechyd a'r ymddygiad a argymhellir, yn arbennig—

(a) gwybodaeth am y grwpiau o'r boblogaeth sydd mewn perygl;

(b) disgrifiad o symptomau tebygol;

(c) rhagofalon yr argymhellir i'r boblogaeth dan sylw eu cymryd; ac

(ch) ymhle i gael rhagor o wybodaeth.

**6.** Gwybodaeth am y materion ychwanegol canlynol—

(a) gwybodaeth am gamau ataliol i ostwng llygredd neu i leihau'r cysylltiad ag ef;

(b) arwydd o'r prif sectorau ffynhonnell; ac

(c) argymhellion ar gyfer gweithredu i ostwng allyriadau.